


Opera gan Leoš Janáček yw **The Cunning Little Vixen** ac mi berfformiwyd am y tro cyntaf yn 1924. Mae'r opera yn adrodd hanes llwynoges sydd â chynlluniau mawr i ymrafael â'r byd ar ei thelerau ei hun. Wrth i'w hantur ddatblygu, mae holl greaduriaid y goedwig yn dod yn fyw, mewn chwedl sy'n dathlu cylch bywyd. Defnyddiwch yr adnodd hwn i greu eich clustiau llwynog eich hun, yn barod i ymuno â'r llwynoges a'i ffrindiau ar eu hanturiaethau.

Penwisg Llyffant

Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur neu gerdyn argraffu
- Siswrn
- Cerdyn
- Glud
- Tâp gludiog




Argraffwch y ffeil ar gyfer wyneb y llyffant ar gerdyn, neu ar bapur, a defnyddiwch y glud i gysylltu'r papur at ddarn o gerdyn tenau. Efallai gallech ddefnyddio pecyn grawnfwyd gwag? Gofynnwch i oedolyn eich helpu.

Ar ôl i'r glud sychu, torrwch o amgylch wyneb a dwylo'r llyffant yn ofalus. Mae'n anodd torri rhai darnau, felly gofynnwch i oedolyn eich helpu.

Defnyddiwch stribedi o gerdyn i wneud band sy'n ffitio o amgylch eich pen.

Ar ôl i chi dorri eich darnau, defnyddiwch y glud neu tâp gludiog i atodi wyneb y llyffant i'r band, yna atodwch y dwylo i lle rydych chi'n credu sydd orau.

O'r diwedd! Rydych chi'n llyffant!



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!